Llyffant y coed

Meddwl am eraill / Parch at fywyd / Trefn natur

Yn y fforestydd trofannol lle mae'n boeth a llaith mae llyffant y coed yn byw. Creadur bychan, pedair coes, gyda chorff gwyrdd a dau lygaid mawr coch ydi llyffant y coed. Bydd yn dringo'r coed o ddydd i ddydd i hel ei damaid – pryfed gan fwyaf. Mae'n anodd iawn ei weld ynghanol y tyfiant gan fod ei groen gwyrdd yn union yr un lliw â'r dail o'i gwmpas. Gall swatio yn y dail heb i'r un creadur arall ei weld. Dim ond dau lygaid mawr fydd yn sbecian drwy'r tyfiant. Mae gan lyffant y coed guddliw ardderchog. Ond am gyfnod byr yn ystod y flwyddyn bydd y fenyw a'r gwryw yn dod i lawr o'r coed i chwilio am bwll o ddŵr. Yn y pwll bydd y llyffantod yn creu argae i ddodwy eu hwyau a hynny mewn grifft. Ar ôl i'r fenyw ddodwy bydd yn eu gadael yn y pwll ac yn dringo'n ôl i'r coed. Er na fydd hi'n gofalu am yr wyau bydd wedi paratoi lle addas iddyn nhw a bydd y grifft yn eu gwarchod rhag i anifeiliaid eraill eu bwyta.

Ymhen rhai dyddiau bydd yr wyau'n deor a bydd y penbyliaid yn dechrau nofio yn yr argae. Lle delfrydol ar eu cyfer. Ond fel mae'r penbwl bach yn tyfu ac yn magu coesau bydd pwll yr argae yn rhy fychan iddo. Bydd angen gadael y dŵr i chwilio am dir. Bellach mae'n gallu i anadlu fel ni trwy ei ysgyfaint yn hytrach na thrwy ei dagellau. Yn araf mae'n dringo dros ochr yr argae ac yn chwilio am dir. Fel ei rieni o'i flaen mae'n dechrau dringo'r coed sydd o'i gwmpas. A dyma fydd ei gartref am weddill ei fywyd.

Ond dydio erioed wedi meddwl fod yna lyffant wedi adeiladu'r argae ar ei gyfer. I fyny yn y coed y bydd yn byw am weddill ei fywyd. Ond fe ddaw yna gyfnod bob blwyddyn pan fydd yn dod i lawr o'r coed a dechrau arni gyda'i gymar i godi argae gyda'r pwrpas o ddodwy wyau. Fel ei rieni o'i flaen does yna run llyffant wedi ei ddysgu. Does yna neb wedi dangos y ffordd iddo i godi'r argae. Bydd yr argae fydd yn ei godi o'r

maint a'r siâp iawn. Bydd yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Sut mae'n gallu gwneud hyn heb i neb ei ddysgu na neb ei arwain? Un o ryfeddodau'r cread.

Diolch i Ti O Dduw am bobl sy'n paratoi ar ein cyfer. Amen.

- Beth ydi'r gwahaniaeth rhwng llyffant y coed a llyffant sy'n byw yn ein gwald ni?
- Beth ydi'r tebygrwydd sydd rhyngddyn nhw?
- Fedrwch chi feddwl am greaduriaid sy'n a) gwarchod eu rhai bach b) yn paratoi ar gyfer eu rhai bach c) yn gadael i'w rhai bach gymryd eu siawns?